**Adroddiad Blynyddol 2012/13**

Adroddiad Blynyddol gan y Cynghorydd Eirwyn Williams, Ward Criccieth. 2012-2013 fel y'i diffinir gan ddeddf Llywodraeth Leol Cymru 2011.

**Pwyllgorau Cyngor Gwynedd a Fynychais.**

**Presenoldeb mewn Pwyllgorau**

Cyfarfodydd.

Nifer. 32. Presennol. 31. Absennol.0. Ymddiheuriadau.1.

Canran presenoldeb mewn pwyllgorau. 97%

**Gwaith Ehangach**

Mae'r flwyddyn gyntaf wedi bod yn llwyddiannus dros ben. Yn yr wythnosau cyntaf cefais y Cynghorydd Sian Gwenllian (yr Aelod Cabinet dros Addysg), Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Cynghorydd Ioan Thomas (yr Aelod Cabinet dros Eiddo) i lawr i Gricieth i gael golwg ar ein ysgol sef Treferthyr. O ganlyniad i hyn mae gwaith sylweddol yn mynd i gael ei wethredu yr haf yma.

Hefyd, yn yr un cyfnod cefais Alun Wyn Jones o'r Adran Bwrdeistrefol i daro llygad ar hen gae chwarae pel droed a maes chwarae plant yn Stad Ty'n rhos.Mae nawr cae chwarae peldroed gyda 'goalposts' newydd sydd yn cael ei edrych ar ei ôl gan y Cyngor ee torri'r gwair ac mwyaf oll yn cael ei ddefnyddio gan blant Gricieth. Mae hefyd gae chwarae newydd yn Ty'n Rhos hwn yn cynnwys mini pitch sydd yn dod a mwynhad i'r plant a balchder i'r rhieni.

'Dwi wedi cynnal surgery ar Fawrth y 1af y tro cyntaf i hyn ddigwydd ac mi 'roedd yn llwyddianus dros ben - un arall i ddod yn y ddau fis nesaf. Mae genai ddiddordeb mawr yn Llwybr yr Arfordir ac yn yr Hydref hefo aelodau o bwyllgor Cyngor y Dref fe gawsom 'grant' gan Cyngor Gwynedd i adeiladu pont a 'gateway' feature allan o dderw Cymreig wrth gaffi Moranedd a contractwyr lleol yn gwneud y gwaith i gyd.

Mae cryn dipyn o waith i wneud eto yr un mwyaf pwysig yw cyflwr y cyfleusterau cyhoeddus a hefyd defnyddio y swyddog adfywio bro newydd. Yn mwynhau'r pwyllgorau a trio mynychu bob un.

**Cyfarfodydd Lleol Eraill**

1. Cyngor Tref Criccieth - is gadeirydd.

2. Llywodraethwr Ysgol Treferthyr.

3. Llywodraethwr Ysgol Eifionydd.

**Hyfforddiant a Fynychwyd**

9 Mai – Anwytho Cyffredinol
10 Mai – Anwytho Holl Aelodau
23 Mai – Cyflwyniad i Gynllunio
30 Mai – Cyflwyniad i'r Diwylliant Newydd a Phrotocolau
31 Mai – Craffu – Pwyllgor Gwasanaethau
15 Mehefin – Sesiwn Anwytho Rhanbarthol Gogledd Cymru
11 Hydef – Hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r I-pad
2 Tachwedd – Sesiwn Anwytho Rhanbarthol Gogledd Cymru
28 Tachwedd – Hyfforddiant Rhiantu Corfforaethol
9 Ionawr – Hyfforddiant Addysg
27 Chwefror – Gwybodaeth am Bobl : Eich Cyfrifoldeb Chi

Cyfanswm mewn oriau yw **41.3** awr

**Corff Allanol**

Rheilffordd y Cambrian